# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## SLC(3) 15-08

Dyddiad: 10 Mehefin 2008
Amser: 8.15am
Lleoliad: Ystafell Bwyllgor 2, y Senedd

### Ymchwiliad i reoli a chraffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig

### Ymweliad â Senedd yr Alban

### Diben

1. Crynodeb yw hwn o'r prif bwyntiau a ddaeth i'r amlwg yn ystod ymweliad Aelodau'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ("y Pwyllgor") â Phwyllgor Isddeddfwriaeth Senedd yr Alban ac yn y cyfarfod gyda chynrychiolwyr Pwyllgor Cysylltiadau Ewropeaidd ac Allanol yr Alban.

### Cefndir

2. Yn y Trydydd Cynulliad, mae cylch gwaith y Pwyllgor wedi newid. Tra bydd yn parhau i weithio ar graffu "yn dechnegol" ar offerynnau statudol (Rheol Sefydlog 15.2), caiff y Pwyllgor bellach hefyd graffu am resymau eraill o dan Reol Sefydlog 15.3 a chraffu ar Fesurau a Mesurau'r Deyrnas Unedig o dan Reol Sefydlog 15.6. 3. Cytunodd yr Aelodau y gallai fod o fudd iddynt gyfnewid profiad a barn ynghylch craffu ar is-ddeddfwriaeth gydag aelodau pwyllgorau gyda chylchoedd gwaith tebyg mewn seneddau neu gynulliadau eraill gan y bydd y dystiolaeth a gesglir yn ddefnyddiol ar gyfer gwaith craffu'r Pwyllgor ac ar gyfer unrhyw argymhellion sydd i'w gwneud. 4. Yn y cyfarfod ar 15 Ionawr 2008 cytunodd yr Aelodau i ymweld â Senedd yr Alban. Digwyddodd yr ymweliad ar ddydd Iau 15 Mai 2008.

### Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Senedd yr Alban

### Cylch gwaith

5. Cylch gwaith Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Senedd yr Alban yw ystyried ac adrodd ynghylch y canlynol: is-ddeddfwriaeth a osodir gerbron Senedd yr Alban; unrhyw un o Offerynnau Statudol yr Alban na chaiff ei osod gerbron y Senedd ond a ystyrir yn gyffredinol o safbwynt ei gynnwys gan benderfynu, yn benodol, ynghylch a ddylid tynnu sylw'r Senedd at unrhyw un o'r materion a grybwyllir yn Rheol 10.3.1; pwerau arfaethedig i wneud is-ddeddfwriaeth mewn Mesurau penodol neu ddeddfwriaeth arfaethedig arall; cwestiynau cyffredinol yn ymwneud â phwerau i wneud is-ddeddfwriaeth; ac a ddylid mynegi unrhyw bwerau dirprwyedig arfaethedig mewn Mesurau penodol neu ddeddfwriaeth arall ar ffurf pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth. 6. Pennir y gweithdrefnau presennol ar gyfer ymdrin ag is-ddeddfwriaeth yn Senedd yr Alban yng Ngorchymyn Deddf yr Alban 1998 (Darpariaethau Trosiannol a Darfodol) (Offerynnau Statudol) 1999. Seilir y drefn ar y gweithdrefnau yn San Steffan er bod y broses yn wahanol. 7. Yr aelodau ar hyn o bryd yw: Jamie Stone (Cynullydd) (Democratiaid Rhyddfrydol yr Alban), Gil Paterson (Dirprwy Gynullydd) (Plaid Genedlaethol yr Alban), Jackie Baillie (Llafur yr Alban), Jackson Carlaw (Plaid Geidwadol ac Unoliaethol yr Alban), Helen Eadie (Llafur yr Alban), Ian McKee (Plaid Genedlaethol yr Alban), John Park (Llafur yr Alban).

### Craffu ar Offerynnau Statudol

8. Mae Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Senedd yr Alban yn cyfarfod bob wythnos yn ystod y tymor er mwyn cadw at y terfynau amser ar gyfer ystyried offerynnau ac ar gyfer adroddiadau gan y Pwyllgor fel y'u nodir yn y Rheolau Sefydlog. Mae'n adrodd i Senedd yr Alban a'r pwyllgor pwnc arweiniol ar faterion technegol. Nid yw'n ystyried "rhinweddau" offerynnau statudol, hynny yw, ni all adrodd ynghylch materion polisi. Mae'r pwyllgor pwnc arweiniol yn ystyried unrhyw faterion polisi mewn perthynas â'r offerynnau statudol ac ni all adrodd ynghylch deddfwriaeth heb ystyried adroddiadau Pwyllgor Isddeddfwriaeth Senedd yr Alban. 9. Seilir adroddiadau Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Senedd yr Alban ar Offerynnau Statudol yr Alban ar friffiau cyfreithiol a gaiff y Pwyllgor. Maent fel arfer yn ystyried y briff cyfreithiol ynghylch Offeryn Statudol yn gyntaf er mwyn penderfynu a oes yna unrhyw bwyntiau i'w codi ac yna, yn y cyfarfod dilynol, ystyriant ymateb y Llywodraeth pan fydd pwyntiau wedi'u codi. Mae gan Bwyllgor Is-ddeddfwriaeth Senedd yr Alban 20 diwrnod i adrodd ynghylch deddfwriaeth ar ôl ei gosod gerbron (neu 22 diwrnod mewn achosion eithriadol). Mae'r Pwyllgor wedi argymell ymestyn y rheol 21 diwrnod cyn dod i rym i 28 diwrnod gan fod y Llywodraeth yn aml yn torri'r rheol 21 diwrnod oherwydd nad oes trefn addas ar gyfer argyfwng (yn ôl y rheol, ni ddylai Offerynnau Statudol yr Alban ddod i rym cyn eu gosod gerbron neu, pan fo'n briodol, o fewn 21 diwrnod ar ôl eu gosod gerbron). 10. Ar hyn o bryd, deddfwriaeth sylfaenol sy'n penderfynu pa ddarpariaethau sy'n cael eu dirprwyo i is-ddeddfwriaeth yr Alban. Mae Senedd yr Alban yn penderfynu yn achos mesurau sy'n dod ger ei bron pa drefn seneddol (os unrhyw un) sy'n briodol i'w gweithredu ar eu cyfer. Gellir hefyd dirprwyo pwerau i Weinidogion yr Alban drwy ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig ac mae'n ofynnol i Bwyllgor Is-ddeddfwriaeth Senedd yr Alban adrodd i Senedd yr Alban ynghylch unrhyw bwerau o'r fath yn y rhai hynny o Fesurau'r Deyrnas Unedig sy'n ymwneud â materion datganoledig. Gall Offerynnau Statudol yr Alban ddilyn y weithdrefn uwchgadarnhaol, y weithdrefn gadarnhaol neu'r weithdrefn negyddol - neu lwybr "dim gweithdrefn" (hynny yw, pan osodir Offeryn Statudol gerbron y Senedd ar ôl ei wneud ond heb fod yna ddarpariaeth ar gyfer gweithdrefnau seneddol pellach). Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried offerynnau "na chânt eu gosod gerbron" (nid yw'r rhain yn mynd i'r pwyllgorau arweiniol). Mae'r rhan fwyaf o Offerynnau Statudol yr Alban yn dilyn y weithdrefn negyddol. Ar gyfartaledd, mae Pwyllgor Isddeddfwriaeth Senedd yr Alban yn craffu ar tua 500-600 o Offerynnau Statudol y flwyddyn. Soniwyd bod cyfyngiadau yn y brif Ddeddf sy'n penderfynu ar y dewis o weithdrefn seneddol weithiau'n golygu, dros amser, y creffir ar Offerynnau Statudol yr Alban i raddau (boed hynny'n graffu

gormodol neu'n graffu annigonol) nad yw'n cyfateb i bwysigrwydd yr offeryn. Mae'r Pwyllgor wedi argymell dull o weithredu a fydd yn mynd i'r afael â hyn yn ei adroddiad ar yr ymchwiliad. 11. Gall Senedd yr Alban a 'r pwyllgorau arweiniol un ai gymeradwyo neu ddirymu Offerynnau Statudol yr Alban yn eu cyfanrwydd ond ni ellir eu diwygio. Gellir tynnu Offerynnau Statudol sy'n cynnwys gwallau yn ôl a'u gosod gerbron a'u hystyried eto'n ddiweddarach; neu gall y Llywodraeth addo'u cywiro ar y cyfle nesaf. Er nad yw Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Senedd yr Alban erioed wedi gosod cynnig gerbron i ddirymu Offeryn Statudol oedd yn dod o dan y weithdrefn negyddol, mae pwyllgorau pwnc arweiniol wedi ystyried cynigion o'r fath o bryd i'w gilydd ac ar un achlysur yn ystod y sesiwn bresennol bu cynnig i ddirymu'n llwyddiannus yn y Siambr (er yn ddiweddarach fe wnaed offeryn cyfatebol yn lle'r un gwreiddiol a threchwyd cynnig i ddirymu hwnnw). Mae Offerynnau Statudol yr Alban sy'n dod o dan y weithdrefn gadarnhaol bron bob amser yn cael eu trafod yn y pwyllgor pwnc arweiniol (yn achlysurol iawn fe aiff offerynnau o'r fath yn syth i'r Siambr). Fodd bynnag, eto yn ystod y sesiwn bresennol, pleidleisiodd y pwyllgor arweiniol i beidio ag argymell cymeradwyo offeryn cadarnhaol a bu'n rhaid felly i Ysgrifennydd y Cabinet osod cynnig ei hun gerbron y Siambr i gymeradwyo'r offeryn. 12. Mae Senedd yr Alban yn defnyddio'r weithdrefn uwchgadarnhaol o bryd i'w gilydd ac mae Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Senedd yr Alban yn ystyried bod y weithdrefn hon yn ddewis defnyddiol ar gyfer craffu'n fanylach ar y pwerau dirprwyedig sy'n fwyaf dadleuol yn wleidyddol. 13. Mae Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Senedd yr Alban yn ystyried Offerynnau Statudol yr Alban sy'n rhoi deddfwriaeth Ewropeaidd ar waith ar yr un sail â deddfwriaeth arall. Nid yw'r Pwyllgor yn adrodd i'r Pwyllgor Cysylltiadau Ewropeaidd ac Allanol. Mae Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Senedd yr Alban yn annog y Llywodraeth i lunio nodiadau trosi gwell. 14. Hyd yn oed pan nad oes pwyntiau i adrodd arnynt, caiff pob offeryn ei ystyried yn ffurfiol mewn pwyllgor. Crybwyllwyd bod diffyg rhybudd ymlaen llaw i bwyllgorau ynghylch offerynnau sydd i'w gosod gerbron gan y Llywodraeth yn amharu ar gynllunio a rheoli llwythau gwaith, gan arwain at gyfnodau prysur am yn ail a chyfnodau distaw, gyda chyfnod prysur iawn yn union o flaen toriadau Seneddol. 15. Mae system lwybro Llywodraeth yr Alban yn creu rhaglen rhagolwg o chwe wythnos a gaiff ei diweddaru'n fisol. Fodd bynnag, nid yw'r rhaglen hon yn cynnwys teitlau deddfwriaeth - dim ond rhestru'r weithdrefn a'r Pwyllgor y cyfeirir y ddeddfwriaeth ato. Caiff y dyddiadau hefyd eu newid yn aml, gan wneud y rhaglen yn anodd ei defnyddio'n ymarferol. Datblygiad diweddar yw'r rhaglen a gobeithir y bydd yn gwella dros amser.

### Craffu ar Fesurau'r Alban

16. Mae Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Senedd yr Alban yn craffu ar y pwerau dirprwyedig ym mhob un o Fesurau'r Alban. Mae'r Llywodraeth yn darparu Memorandwm Pwerau Dirprwyedig ar gyfer pob un o Fesurau'r Llywodraeth a gellir galw swyddogion i fynychu'r cyfarfod i ddarparu rhagor o wybodaeth neu i egluro unrhyw fater. 17. Mae Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Senedd yr Alban yn adrodd i'r pwyllgor pwnc arweiniol yn ystod y cam ymgynghori (cyn Cam II). Maent yn ceisio ymateb ffurfiol gan y Llywodraeth cyn i Gam II gychwyn. Bydd y Pwyllgor yn ystyried yr ymateb ac yn penderfynu a ydynt am gynnig gwelliannau. Yn y gorffennol y duedd oedd iddynt wneud hyn adeg Cam III, ond maent bellach yn dod yn fwy rhagweithiol gan gynnig gwelliannau adeg Cam II, gan gredu mai dyna'r adeg fwyaf priodol i'w Pwyllgor gyfrannu tuag at y broses ddeddfu. Ar ôl Cam II, mae Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Senedd yr Alban yn derbyn memorandwm pwerau dirprwyedig diwygiedig os yw'r llywodraeth wedi cyflwyno unrhyw newidiadau. Nid yw'n Pwyllgor fel arfer yn derbyn tystiolaeth oddi wrth randdeiliaid allanol; mae'n ymdrin ag unrhyw bwyntiau gan fwyaf drwy ohebu â'r Llywodraeth.

### Craffu ar Fesurau'r Deyrnas Unedig

18. O dan gytundeb a elwir yn "Gytundeb Sewel", ni fydd San Steffan yn pasio Mesurau a allai un ai newid y gyfraith ynghylch mater datganoledig, neu newid cymhwysedd deddfwriaethol Senedd yr Alban neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion yr Alban heb yn gyntaf sicrhau caniatâd Senedd yr Alban. Gwneir hynny drwy gyfrwng Memoranda Caniatâd Deddfwriaethol a osodir gerbron Senedd yr Alban gan Lywodraeth yr Alban. 19. Mae Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Senedd yr Alban yn ystyried y pwerau dirprwyedig a roddir i Weinidogion yr Alban ym Mesurau'r Deyrnas Unedig drwy graffu ar y pwerau hynny cyn i'r pwyllgor arweiniol ystyried y Memorandwm Caniatâd Deddfwriaethol. Fel arfer, bydd y cynghorwyr cyfreithiol yn paratoi briffiau a gellir gohebu ymhellach â'r Llywodraeth er mwyn cael eglurhad ar unrhyw bwyntiau a godir cyn i Bwyllgor Isddeddfwriaeth Senedd yr Alban adrodd i'r pwyllgor pwnc arweiniol. 20. Nid yw Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Senedd yr Alban yn gohebu'n uniongyrchol â Llywodraeth y Deyrnas Unedig na San Steffan. Un her yw anhawster olrhain Mesurau'r Deyrnas Unedig drwy'r camau Seneddol yn San Steffan lle gall gwelliannau olygu newid yn y pwerau dirprwyedig a roir i Weinidogion yr Alban o gymharu â'r rhai a gynhwyswyd yn y Mesur gwreiddiol.

### Ymchwiliad i'r Fframwaith Rheoleiddio yn yr Alban

21. Mae Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Senedd yr Alban wedi cwblhau ei Ymchwiliad i'r Fframwaith Rheoleiddio yn yr Alban ac wedi cyhoeddi'r adroddiad gydag argymhellion manwl ynghylch sut y gellid gwella'r trefniadau presennol ar gyfer ymdrin ag is-ddeddfwriaeth ar 18 Mawrth 2008 (gweler crynodeb yn Atodiad 1): http://www.scottish.parliament.uk/s3/committees/subleg/reports-08/sur08-12.htm 22. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl am ymateb ffurfiol i'w adroddiad oddi wrth Lywodraeth yr Alban. **Trosi cyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd a'u rhoi ar waith** 23. Cylch gwaith Pwyllgor Cysylltiadau Ewropeaidd ac Allanol yr Alban yw ystyried cynigion ar gyfer deddfwriaeth y Cymunedau Ewropeaidd ac adrodd arnynt, rhoi deddfwriaeth y Cymunedau Ewropeaidd ar waith, unrhyw fater yn ymwneud â'r Cymunedau Ewropeaidd neu'r Undeb Ewropeaidd, datblygu cysylltiadau Gweinyddiaeth yr Alban â gwledydd a thiriogaethau y tu allan i'r Alban, y Cymunedau Ewropeaidd (a'u sefydliadau) a chyrff rhyngwladol eraill a rhoi'r cysylltiadau hynny ar waith a chydgysylltu gweithgareddau rhyngwladol Gweinyddiaeth yr Alban. 24. Aelodau presennol Pwyllgor Cysylltiadau Ewropeaidd ac Allanol yr Alban yw: Malcolm Chisholm (Cydlynydd) (Llafur yr Alban), Alex Neil (Dirprwy Gydlynydd) (Plaid Genedlaethol yr Alban), Ted Brocklebank (Plaid Geidwadol ac Unoliaethol yr Alban), Patricia Ferguson (Llafur yr Alban), Alasdair Morgan (Plaid Genedlaethol yr Alban), Irene Oldfather (Llafur yr Alban), Gil Paterson (Plaid Genedlaethol yr Alban), Iain Smith (Democratiaid Rhyddfrydol yr Alban). Fel arfer, mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bob yn ail wythnos. 25. Ym mis Mai 2008 cwblhaodd Pwyllgor Cysylltiadau Ewropeaidd ac Allanol yr Alban ei ymchwiliad i drosi cyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd a chyhoeddodd yr adroddiad gydag argymhellion manwl ym mis Mai 2008: http://www.scottish.parliament.uk/s3/committees/europe/reports-08/eur08-01.htm 26. Bwriad yr ymchwiliad oedd ymdrin â phryderon rhanddeiliaid ynghylch effeithiolrwydd gweithdrefnau Llywodraeth yr Alban ar gyfer trosi cyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd (gweler

crynodeb yn Atodiad 2).27. Mae Swyddfa Cabinet Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cynhyrchu canllawiau ar gyfer trosi cyfarwyddebau. Un o argymhellion adroddiad ymchwiliad Pwyllgor Cysylltiadau Ewropeaidd ac Allanol yr Alban yw y dylai Llywodraeth yr Alban, bob tro y'i hysbysir ynghylch rhwymedigaeth i roi deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ar waith, hysbysu Senedd yr Alban yn ffurfiol drwy gyflwyno cynllun trosi. Mae Llywodraeth yr Alban wedi cytuno i lunio nodiadau trosi i hybu tryloywder y gweithdrefnau ar gyfer trosi cyfarwyddebau. 28. Diben cynllun neu nodiadau trosi yw egluro pa ddeddfwriaeth y mae angen ei throsi a sut mae i'w throsi, sydd o gymorth i adnabod pa reoliadau sy'n ganlyniad i ddeddfwriaeth Ewropeaidd. Teimlai Pwyllgor Cysylltiadau Ewropeaidd ac Allanol yr Alban y gallai'r Llywodraeth wneud gwell defnydd o'r cyfnodau, sy'n aml yn hir, yn arwain at weithredu, sef rhwng cytuno ar y gyfarwyddeb ym Mrwsel a'r terfyn amser ar gyfer rhoi'r gyfarwyddeb ar waith. Mae'r Llywodraeth yn aml yn ymgynghori â rhanddeiliaid yn eithaf hwyr yn ystod y cyfnod paratoi hwnnw. Mae hynny hefyd yn gadael llai o amser i Bwyllgor Cysylltiadau Ewropeaidd ac Allanol yr Alban ystyried y materion perthnasol. 29. Byddid yn cyflwyno nodiadau trosi i Bwyllgor Cysylltiadau Ewropeaidd ac Allanol yr Alban ac i'r pwyllgorau pwnc. Nid yw Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Senedd yr Alban yn ymdrin yn uniongyrchol â materion trosi. Amlygodd Cam 1 yr ymchwiliad bwysigrwydd mynd i'r afael â cheisio dylanwadu ar ddeddfwriaeth Ewropeaidd yn gynnar, cyn y bydd sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd wedi cytuno arni, fel y ffordd orau o sicrhau'r canlyniad gorau i'r Alban. Erbyn yr adeg y bydd cyfarwyddeb yn cael ei throsi bydd y posibiliadau ar gyfer dylanwadu ar ei heffaith yn gyfyngedig. 30. Roedd Pwyllgor Cysylltiadau Ewropeaidd ac Allanol yr Alban hefyd yn credu bod y darpariaethau yn ymwneud â sybsidiaredd a swyddogaeth seneddau a'r rhanbarthau yng Nghytundeb Lisboa (Lisbon) yn cynnig cyfle i graffu'n fwy effeithiol ar ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd.

Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Mai 2008

## Annex 1

## Subordinate Legislation Committee Inquiry into the Regulatory Framework in Scotland

The Subordinate Legislation Committee of the Scottish Parliament recently published a report on its "Inquiry into the Regulatory Framework in Scotland" (18 March 2008) with recommendations on how to improve current procedures for dealing with subordinate legislation.

### Background

The Scotland Act 1998 (Transitional and Transitory Provisions) (Statutory Instruments) Order was made before devolution by the UK Government in order to provide a procedure for dealing with secondary (or subordinate) legislation. It was only intended to make transitional provision until the Parliament itself had time to consider and devise its own procedures. The **session 2 Subordinate Legislation Committee** agreed in January 2004 to undertake an inquiry which would examine the regulatory framework in Scotland including devolved, UK and EU aspects. Phase 1 of the inquiry sought to determine the main characteristics of the framework, comparing it to best regulatory practice elsewhere. The committee's report on phase 1 was published in July 2005. The second phase of the inquiry involved detailed consideration of the current system of scrutiny and handling of subordinate legislation within the Scottish Parliament with a view to making recommendations to improve or replace current procedures. The session 2 committee concluded that rather than seek to improve the current system, which was based on Westminster procedures, the current system should be replaced. The committee published its report in February 2007; however because of the proximity of the Scottish Elections, the Parliament did not have time to consider the committee's recommendations. The committee therefore asked its successor to consider its report and make its own recommendations to Parliament in session 3. The **current committee** decided to follow this up with its own inquiry to consider its predecessor's report. The committee took evidence from previous committee members, others who had previously given evidence, and from the Scottish Government. Inquiry Recommendations The committee considered that whilst the new system recommended by its predecessor would offer a number of benefits, it also had some disadvantages. It concluded that the most workable outcome both for the Parliament and the Scottish Government would be to improve procedures within the existing framework. The report calls for a bill to be developed in a partnership between the Parliament and the Scottish Government to replace Transitional Order. The committee makes a number of detailed recommendations to improve current procedures and to simplify a process which it believes is unwieldy and complex. The committee's recommendations include -

Reducing the number of procedures so that only the most useful are retained (mainly affirmative, negative, and super affirmative).
Introducing new procedures for dealing with emergency instruments and consolidations.
Extending the period for scrutiny before negative instruments can come into force from 21 to 28 days.
Lead committees should be made aware of the flexibility which already exists to dispense with debate on affirmative instruments and to take evidence on negative instruments.
The power to recommend annulment of an instrument should rest solely with the lead committee.
There should be a procedure for the Scottish Government to withdraw and relay draft instruments to make agreed technical changes without affecting the 40 day time limit.
Requiring the Scottish Government to provide the Parliament with a 6 week forward programme of subordinate legislation on a monthly basis to allow for improved planning by parliamentary committees. This will be helped by the Scottish Government's tracker system.
Post legislative scrutiny of delegated powers should be added to the remit of the Subordinate Legislation Committee.
A power should be conferred on Ministers enabling them to amend by order the procedure specified in a parent Act, on the recommendation of the SLC.

# Annex 2

# The Scottish Parliament's European and External Relations Committee:

# Inquiry into the transposition of EU directives

### Background

EU directives are normally transposed into UK law through subordinate legislation. While they are binding on the Member States as regards the objective to be achieved, national authorities have a certain amount of freedom to decide how the Directive should be implemented domestically. A lead UK Government department will co-ordinate the process of transposition with other interested departments, as well as with the devolved administrations. Where directives fall within devolved competencies, separate regulations will be made by England, Wales, Scotland and Northern Ireland. If the Assembly does not have the specific powers to make regulations to implement all of the requirements of a Directive under existing primary legislation, then it can be designated (under Section 2(2) of the European Communities Act 1972) to bring forward regulations to implement European obligations in a given field. The Scottish Parliament's European and External Relations Committee has undertaken an inquiry into the transposition of EU directives which it published on 2 May 2008 ($1^{st}$ Report, 2008 (Session 2008), SP Paper 89). The remit of the inquiry was to examine the transposition of EU directives into Scottish law. In particular:

How effective and transparent are the Scottish Government's transposition procedures?
How effective is the Scottish Government in working closely with the other devolved administrations and the UK Government during the transposition process?
Is there adequate and timely consultation with stakeholders whose interests on which a new directive will directly impact?
To what extent does the transposition process allow for "differential implementation" and tailor Scottish solutions to Scottish problems?
How effective is the role of the Scottish Parliament within the transposition process?

### Inquiry Conclusions

The Scottish Government has committed to introduce new publicly-available procedures for transposing EU law in Scotland which was welcomed by the Committee. The Committee's Report would inform the procedures. The Minister stated that the procedures would "clarify the Government's various roles and responsibilities from initial proposal development and negotiations through to implementation of directives and monitoring their effectiveness" and would set out:

How Scotland feeds into the process of EU law;
How and at what stages the Scottish Government will engage with stakeholders;
How and at what stages the Scottish Government will work with the Scottish Parliament;
The Scottish Government's contribution towards the better regulation agenda "by emphasising our commitment to reducing the burden of bureaucracy and regulation on business."

### Committee Recommendations

The Scottish Government's transposition guidance should explicitly recognise the importance of **early engagement** with the EU's institutions and the direct connection with effective implementation.
The Scottish Government should continue to develop the **presentation of its EU priorities** to the Parliament to include a detailed summary of the early engagement it has undertaken in relation to its EU priorities and political objectives.
The Scottish Government, on being notified of each obligation to implement EU legislation, should formally notify the Scottish Parliament through the submission of a **transposition plan** which should include:
any specific Scottish interests to be addressed during the transposition process;
plans for consultation with stakeholders during the transposition process;
plans for engagement with the parliament during the transposition process;
An indication of whether the Scottish Government intends to use section 57(1) and the reasons why;
Whether primary or secondary legislation will be used for transposition;
The likely timetable for transposition.
The Committee agreed to **consult with the Subordinate Legislation Committee** on the provision of transposition notes; in particular:
The extent to which transposition notes are provided;
Whether they are consistent in content in terms of detail; and
Whether they provide clear guidance on the meaning of directives.
The guidance should address specifically those cases where the Scottish Government considers that the directive provides **scope for a "Scottish solution"** and the process that will be followed by the Scottish Government in such cases.
The Committee recommends that the guidance should provide for **regular review** and evaluation of transposing legislation, including the role of regulators.